OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 879 (Cy.84)(C.21)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 21 Mawrth 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Diwrnod penodedig

4. 1 Ebrill 2006 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Darpariaeth Drosiannol

5. Hyd nes bod rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adran 31 mewn perthynas â Chymru, mae'r cyfeiriad ym mharagraff 9 o Atodlen 2 at "any transfer of control authorised by regulations under section 31" i fod yn effeithiol fel pe bai'n gyfeiriad at "any transfer of control agreement under Schedule 13" o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**).

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1998 p.31.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
21 Mawrth 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Erthygl 4

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2006

Y ddarpariaeth	**Y pwnc**
Adran 35	Staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir
Adran 36	Staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig
Adran 37	Taliadau mewn perthynas â diswyddo, etc.
Adran 40 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	Diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 2	Effaith atal dros dro cyllideb ddirprwyedig ar staffio
Atodlen 3 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	Diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Atodlen 21, paragraff 30, paragraff 107, paragraff 110(3)(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau (f) a (k) o isadran (6) o adran 127 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 110(3)(c) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau (p) a (q) newydd isadran (6) o adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Atodlen 22, Rhan 3, diddymu—	Diddymiadau
Deddf Diwygio Addysg 1988, adran 218(1)(d),	
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adrannau 54 i 57, adran 127(6)(f) a (k),	
Atodlenni 16 a 17,	
Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, adran 40.	

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2006 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, o ran Cymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru— gweler adran 211.

Mae effaith y darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fel a ganlyn—

Mae adran 35 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir. Mae'n disodli'r trefniadau a nodwyd yn adran 54 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") ac Atodlen 16 iddi. Mae'n darparu mai'r AALl yw cyflogwr staff yr ysgolion hyn ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod y staff hyn yn cynnwys prifathro neu brifathrawes. Mae'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau ar benodi staff yr ysgolion hyn, eu disgyblu, eu hatal dros dro a'u diswyddo.

Mae adran 36 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig, gan ddisodli'r trefniadau a nodwyd yn adran 55 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 17 iddi. Mae'n darparu mai'r corff llywodraethu yw cyflogwr staff yr ysgolion hyn, oni bai bod rheoliadau yn datgan fel arall. Rhaid i'r staff gynnwys prifathro neu brifathrawes. Rhoddir pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau ar benodi staff yr ysgolion hyn, eu disgyblu, eu hatal dros dro a'u diswyddo.

Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer y trefniadau staffio sydd i fod yn gymwys yn lle rheoliadau o dan adran 34 neu 35 os caiff cyllideb ddirprwyedig ysgol ei hatal dros dro.

Mae adran 37 yn ailddeddfu adran 57 o Ddeddf 1998 ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â thaliadau mewn perthynas â diswyddo staff o ysgolion a gynhelir.

Mae Adran 40 ac Atodlen 3 yn diwygio Deddf 1998 o ganlyniad i'r trefniadau staffio newydd.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*	*Rhif yr O.S.*
Adrannau 14 i 17	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 18(2)	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 19(6) (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 19 (1) i (7) (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 20 (1) i (3), (5)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)